# Asesiad Effaith Cydraddoldeb yr Eglwys Fethodistaidd

## Cyflwyniad

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) yr Eglwys Fethodistaidd wedi cael ei gynllunio i gynorthwyo Eglwysi/Cylchdeithiau/unigolion lleol i sicrhau cyfiawnder, cynhwysiant a thryloywder gyda pholisïau, ymarfer a phenderfyniadau. Bydd yr AEC yn helpu i sicrhau na fydd unrhyw unigolyn neu grŵp o bobl dan anfantais neu'n profi gwahaniaethu yn eu herbyn yn anfwriadol yn sgil y ffordd yr ydym ni'n gwneud pethau, a bod yr holl bobl yn cael eu cynnwys yn llawn.

## Pwrpas

Pwrpas AEC yw adolygu a rhagweld unrhyw faterion neu efffaith a allai godi oherwydd ein ffyrdd ni o weithio ar wahanol unigolion neu grwpiau o bobl. Bydd yn helpu i ddiddymu neu liniaru unrhyw effaith ddinistriol a gwneud y mwyaf o effaith gadarnhaol.

Cafodd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) ei ddatblygu oherwydd ein bod ni'n credu bod cariad Duw 'i bawb' a'n bod ni wedi ein galw i fynegi hynny yn ein bywydau.

Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn gofyn ystyriaeth o'r priodoleddau canlynol:

Oedran
Anabledd
Rhyw
Ailbennu Rhywedd Beichiogrwydd a
Mamolaeth Priodas a Phartneriaeth Sifil Hil
Crefydd a Ffydd
Cyfeiriadedd Rhywiol Gelwir y rhain yn **'Briodoleddau Gwarchodedig'** yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010.

Yn Gristnogion, rydym ni'n awyddus i sicrhau bod yr holl bobl yn cael eu cynnwys yn ddiogel ym mywyd yr eglwys.
Felly, yn ogystal â'r priodoleddau gwarchodedig uchod, fe allech chi fod am gynnwys ffactorau cymdeithasol economaidd eraill hefyd, e.e. diweithdra, cyflogau isel, yr Economi Gìg a gwaith shifft, unigrwydd cefn gwlad, materion iechyd meddwl ac ati.

Bydd y broses AEC yn rhoi cofnod o'r camau a gymerwyd i nodi, ac ymgymryd ag unrhyw anfantais neu annhegwch yn ein ffyrdd ni o weithio. Mae casglu tystiolaeth ac ymgynghoriad yn ganolog i'r broses hon.

## Pam mae hyn yn bwysig?

Am ein bod ni'n credu bod cariad Duw yn cynnwys pawb ac rydym ni'n dymuno adlewyrchu hynny yn ein gweinidogaeth a'n cenhadaeth ni.

## Cefndir

Daeth yr argymhelliad ar gyfer yr AEC hwn o'r strategaeth Cyfiawnder, Urddas a Chydlyniad (a fabwysiadwyd gan Gynhadledd 2021).
Ei bwrpas yw ennyn Eglwys Fethodistaidd sy'n wirioneddol gynhwysol. Mae'r strategaeth yn ceisio:

- Am symudiad yn y patrwm (newid sylfaenol) yn niwylliant, ymarfer ac ymagwedd yr Eglwys Fethodistaidd fel bod pob Methodist yn gallu cyfranogi yn llawn o fywyd yr Eglwys;

- I ddileu pob gwahaniaethu a rheolaeth drwy orfodaeth o fewn yr Eglwys Fethodistaidd, ac i'r holl bobl gael eu trin gyda chyfiawnder ac urddas ledled yr Eglwys Fethodistaidd;

- I amrywiaeth gyfoethog y bobl yn yr Eglwys Fethodistaidd gael ei hadnabod yn destun diolchgarwch, dathliad a moliant.

Mae'r strategaeth yn cynnwys camau sy'n orfodol i eglwysi lleol, cylchdeithiau, taleithiau a'r Cyngor Methodistaidd ac fe'i cynllunir i wreiddio diwylliant o gyfiawnder a pharch i'r holl bobl. Ar gyfer cynorthwyo'r broses hon bydd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn cael eu cyflwyno ledled yr Enwad. Ein gobaith ni yw y bydd y rhain yn dod yn ffordd o fyw ac yn ymagwedd sydd yn y galon a'r meddwl, yn hytrach na dim ond yn ymarfer ar bapur.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau o ran gweithrediad yr AEC ac yn disgrifio sut i'w gwblhau.

## Yr amser priodol i gwblhau AEC

Ymarfer da yw ymgymryd ag AEC wrth ddatblygu polisïau/gweithdrefnau newydd neu wrth ymgymryd â phroses adolygu. Peth da fyddai defnyddio'r AEC cyn gynted â phosibl yn ystod y broses i ganiatáu ar gyfer nodi a lliniaru unrhyw faterion neu effaith ddinistriol neu eu hosgoi yn llwyr.

Wrth ymgymryd ag AEC, byddwch yn barod i weithredu ar y materion a allai godi. Mae hi'n debygol y bydd hi'n rhwydd gwneud newidiadau neu addasiadau bychain.

Fodd bynnag, gallai problemau mwy cymhleth ofyn rhagor o ystyriaeth a chefnogaeth.
Wrth ymdrin ag effaith ddinistriol, sicrhewch fod camau cymesur a rhesymol yn cael eu nodi a'u gweithredu, os gwelwch yn dda.

Pan fo goblygiadau sylweddol o ran cyllid ac adnoddau, gallai ymgynghoriad gyda'r tim arweinyddol lleol, neu unigolion neu bwyllgorau perthnasol fod yn angenrheidiol i gytuno ar ffordd briodol ymlaen.

## Pum Cam i gwblhau AEC yr Eglwys Fethodistaidd

1) Sicrhewch eich bod wedi cytuno ar bwrpas y weithdrefn neu'r polisi
2) Casglwch dystiolaeth: pa dystiolaeth sydd gennych yn barod i lenwi eich asesiad effaith?
   Gallai hyn gynnwys adborth blaenorol oddi wrth grwpiau cymunedol, adborth o grwpiau cymdeithasol, monitro data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, cyfweliadau wrth ymadael, sgyrsiau anffurfio ac ati[1]
3) Ymgynghori â'r rhai y gellid effeithio arnyn nhw
4) Llenwi'r AEG a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i gynorthwyo mwy o bobl i fod â rhan lawn
5) Monitro ac adolygu pob newid, a fydd hefyd yn cynnwys gwirio sut mae'r polisi neu'r weithdrefn newydd yn gweithio

Ymhen amser fe allech chi ddymuno sefydlu 'Cylchoedd Cydlyniad' fel yr awgrymir yn y Strategaeth Cyfiawnder, Urddas a Chydlyniad [Cyfrol 3 Agenda Cynhadledd 2021 (methodist.org.uk)]

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb yr Eglwys Fethodistaidd:

| | |
|---|---|
| **Enw'r Polisi/ Gweithdrefn Cam:** | |
| **Enw'r Eglwys/ Cylchdaith/Talaith:** | |
| **Cwblhawyd Gan:** | |
| **Dyddiad Cwblhau:** | |
| **Dyddiad yr Adolygiad:** | |

| Priodoledd Warchodedig | Effaith Gadarnhaol | Effaith Ddinistriol | Camau a gymerwyd |
|---|---|---|---|
| Oedran | | | |
| Anabledd | | | |
| Rhyw | | | |
| Rhywedd | | | |
| Ailbennu Rhywedd | | | |
| Beichiogrwydd a Rhianta | | | |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | | | |

| Protected Characteristic | Positive Impact | Negative Impact | Action Taken |
|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd [2] | | | |
| Cyfeiriadaedd Rhywiol | | | |
| Cred Grefyddol | | | |
| Ffactorau Cymdeithasol-Economaidd | | | |
| Ffactorau eraill | | | |
| | | | |

Ystyriwch sut allai'r polisi neu'r weithdrefn effeithio ar bobl sy'n rhannu priodoleddau gwarchodedig yn ogystal ag unrhyw ffactorau eraill a allai fod yn berthnasol yn lleol

[2] Yn y Priodoleddau Gwarchodedig cyfreithiol gelwir hyn yn 'Hil' ond mae'r Eglwys Fethodistaidd yn credu mai dim ond un hil ddynol sydd

Nodiadau: